

Bwrdd Iechyd addysgu Powys
Cynllun Gweithredu Urddas a Pharch AGIC ar gyfer Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu (Ward Bannau)

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymateb i'r adolygiad dirybudd o'r Urddas a'r Parch a roddir i gleifion ar Ward Crug (Iechyd Meddwl Pobl Hŷn) yn bennaf yn Ysbyty Coffa Rhyfel Aberhonddu. Fodd bynnag, roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ymweliad byr â Ward Bannau (Adsefydlu Cyffredinol). Nid yw'r adroddiad yn nodi'n eglur pa faterion sy'n ymwneud â Ward Bannau. Penderfynwyd felly i seilio'r cynllun gweithredu yn fras ar yr un a luniwyd ar gyfer Ward Crug, ond heb gynnwys y camau gweithredu penodol hynny y gwyddys eu bod yn ymwneud ag iechyd meddwl. Bwrdd Iechyd addysgu Powys sy'n llwyr gyfrifol am y cynllun gweithredu hwn. Bydd y cynllun hwn yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Gwella Cyfranogiad a Phrofiad Cleifion a fydd yn adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Argymhelliad: 1) Gwella'r arwyddion ym mhob man ac, yn benodol, cynyddu eu maint ac arddangos arwyddion darluniadol				
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynydd (<i>ym mis Ionawr 2011</i>)
PtHB1	Adolygu'r holl arwyddion, eu diweddarau, eu lamineiddio, gosod rhai newydd yn lle hen rai, a sicrhau eu bod ddigon mawr ac mewn lliw pan fo'n briodol er mwyn bodloni anghenion y rhai hynny sydd ag anabledd e.e. problemau â'r golwg.	Y Fetron gyda Phrif Nyrs y Ward.	Ebrill 2010.	Mae'r holl arwyddion wedi eu lamineiddio ar hyn o bryd. Adolygwyd yr arwyddion ac ychwanegwyd arwyddion darluniadol. Aildrefnwyd yr arwyddion a gosodwyd arwyddion newydd yn yr Adrannau Cleifion Allanol a Llawdriniaeth Ddydd, a'r Ganolfan Geni, gyda Braille ar gyfer pobl ddall. Ceir system dolen sain ym mhob man ar gyfer pobl sy'n drwm eu clyw.
PtHB2	Sicrhau y gosodir arwyddion newydd yn lle hen rai a bod unrhyw bryderon sy'n codi yn cael eu hadrodd ac yn derbyn sylw fel y bo'r angen.	Y Fetron gyda Phrif Nyrs y Ward.	Ebrill 2010.	Aildrefnu gyda chyfraniad gan Grŵp Mynediad Brycheiniog i sicrhau bod pob agwedd wedi derbyn sylw o safbwynt pobl anabl, pobl ddall a phobl sy'n drwm eu clyw.

Argymhelliad: 2) Cymryd camau pendant i gynnwys cleientiaid, gofalwyr a'u teuluoedd wrth gynllunio gofal (a chofnodi hynny) er mwyn sicrhau y bodlonir yr holl anghenion				
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ym mis Ionawr 2011)
PtHB1	Trefnu sesiwn frifffio ar <i>'sut i gynnwys'</i> ar gyfer yr holl staff (nodwyd hyn eisoes fel cam gweithredu yn dilyn yr Archwiliad Hanfodion Gofal).	Y Fetron gyda Phrif Nyrs y Ward.	Ebrill 2010.	Mae cyfarfod yr arweinwyr clinigol yn cynnwys arweinwyr cymunedol ac arweinwyr tîm, ac mae Urddas a Pharch yn rhan o'r agenda.
PtHB 2	Sicrhau bod cynnwys cleifion a gofalwyr wrth gynllunio gofal wedi ei nodi'n flaenoriaeth yn rhaglen waith 2010-11 ar gyfer Gwella Cyfranogiad a Phrofiad Cleifion. <i>Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy'r Rhaglen Archwilio Hanfodion Gofal.</i>	Y Cyfarwyddwr Nyrsio.	Mai 2010.	Cesglir adborth gan gleifion/gofalwyr bob blwyddyn. Mae cleifion/gofalwyr yn cael eu cynnwys ar adeg eu derbyn. Archwiliad Hanfodion Gofal blynyddol.
Argymhelliad: 3) Gwella'r cyfleusterau ar gyfer cleifion ag anableddau e.e. nam ar y synhwyrau, wedi colli un neu fwy o'r synhwyrau, a chynyddu ymwybyddiaeth y staff ynglŷn â'r adnoddau sydd ar gael e.e. Braille/systemau dolen sain				
PtHB 1	Sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael a sut i ddefnyddio cyfleusterau gwella cyfathrebu – efallai trwy gerdyn canllaw ar y ward.	Y Fetron.	Mai 2010.	Mae Rheolwr a Metron y ward yn datblygu ffolder cysylltiadau gyda chyfeirlyfr o'r holl wasanaethau sydd ar gael ym Mhowys ac yn y sector gwirfoddol.
PtHB 2	Adolygu'r ystod o gyfleusterau gwella cyfathrebu sydd ar gael ar draws y sefydliad a gweithredu camau gwella o ganlyniad (o fewn y Pwyllgor Gwella Cyfranogiad a Phrofiad Cleifion).	Y Cyfarwyddwr Nyrsio.	Medi 2010.	

Argymhelliad: 4) Adolygu amllder a chanlyniadau hyfforddiant POVA/POCA. Cofnodi a monitro hyfforddiant staff				
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ym mis Ionawr 2011)
PtHB 1	Yn unol â'r Cynlluniau Hyfforddiant Amddiffyn Plant a PoVA cyfredol, dylid hwyluso hyfforddiant a sicrhau y cedwir cofnodion lleol. <i>Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y Fforwm Amddiffyn Oedolion, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, yn ogystal â thrwy ddulliau rheoli perfformiad lleol.</i>	Y Nyrs Benodedig ar gyfer Diogelu.	Mawrth 2010.	
PtHB 2	Sicrhau bod cofnodion canolog yn adlewyrchu'n ddigonol yr hyfforddiant sydd wedi ei gynnal o ran PoVA ac Amddiffyn Plant. <i>Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y Fforwm Amddiffyn Oedolion a'r Fforwm Amddiffyn Plant, sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Bydd hefyd yn ffurfio rhan o'r prosiect hyfforddiant gorfodol a statudol sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.</i>	Y Nyrs Benodedig ar gyfer Diogelu.	Mehefin 2010.	Mae 64% o'r staff wedi dilyn hyfforddiant Amddiffyn Plant.
Argymhelliad: 5) Gweithredu Adolygiadau Datblygiad Personol/Proffesiynol ar gyfer yr holl staff				
Cyf.	Cam gweithredu	Arweinydd	Amserlen	Cynnydd (ym mis Ionawr 2011)
PtHB 1	Bydd cynllun gydag amserlen yn cael ei lunio ar gyfer yr holl Adolygiadau Datblygiad Personol/Proffesiynol.	Y Fetron.	Mawrth 2010.	Mae 29% o Adolygiadau Datblygiad Personol/Proffesiynol y staff wedi eu cwblhau. Mae 71% ar y gweill.
PtHB 2	Bydd yr holl Adolygiadau Datblygiad Personol/Proffesiynol yn cael eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2010. Bydd Datblygiad Personol/Proffesiynol yn cael ei adolygu bob 6 mis o leiaf, a bydd y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn monitro hyn fel un o'r amcanion corfforaethol.	Y Fetron.	Gorffennaf 2010.	Mae Prif Nyrsys y Ward yn cadw cofnodion ynglŷn â'r Adolygiadau.

Argymhelliad: 6) Gweithredu'r Gofyniad Diogelu Annibynnol sydd ar ddod ynglŷn ag archwiliadau SCT ar gyfer yr holl staff yn y grwpiau staff gofynnol

PtHB 1	Yn unol â'r rhaglen waith gyfredol, dylid sicrhau bod gan yr holl staff sydd mewn rhai swyddi penodol archwiliad SCT manwl yn unol â gweithredu'r Gofyniad Diogelu Annibynnol neu cyn ei weithredu.	Y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.	Mai 2010.	Mae holl aelodau staff Ward Bannau wedi cael archwiliad SCT.
--------	---	--	-----------	--